



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

PRENTISIAETHAU. DEWIS DOETH.

Canllaw i Gyflogwyr.

 Prentisiaethau
Apprenticeships



Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

978-1-80038-215-2



02

Prentisiaethau. Dewis doeth.

BETH YW PRENTISIAETH?

Beth am i ni ddechrau drwy chwalu un o'r prif fythau - nid ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol yn unig y mae prentisiaethau. Mae ein Rhaglen Prentisiaethau yn agored i bawb dros 16 oed.

Mae prentisiaethau'n ffordd gost effeithlon o greu gweithlu sy'n fwy hyblyg, ac mae hynny'n helpu i gefnogi anghenion sgiliau nawr ac yn y dyfodol. P'un a ydych chi'n dewis recriwtio, ailhyfforddi neu adleoli eich gweithlu, mae rhoi gwybodaeth am y swydd a sgiliau perthnasol iddyn nhw yn hanfodol i helpu'ch busnes i dyfu. Mae'r Rhaglen Prentisiaethau wedi'i llunio ar sail eich anghenion chi - y cyflogwr, a gall helpu i gefnogi eich busnes drwy roi i'ch gweithlu y sgiliau maen nhw eu hangen nawr ac yn y dyfodol.

Mae arian ar gael i gefnogi pob busnes yng Nghymru, ni waeth pa mor fawr neu fach. Mae prentisiaid yn ennill cyflog wrth ddysgu - felly rydych chi'n talu'r cyflogau tra byddwn ni'n talu'r costau hyfforddiant.

Mae Rhaglen Prentisiaethau hynod lwyddiannus yng Nghymru, a sefydlwyd mewn partneriaeth â busnesau yng Nghymru. Rydym yn canolbwyntio ar gynnig ansawdd da, y llwybrau sgiliau cywir a'r lefel briodol o gefnogaeth i helpu i sicrhau gwydnwch economaidd.

03

businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau/



04

PAM DEWIS PRENTISIAETHAU?

Mae prentisiaethau'n cynnig opsiwn fforddiadwy i recriwtio staff newydd a rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth briodol i'ch gweithlu er mwyn datblygu, tyfu a llwyddo: ac mae'r rhain i gyd yn cael eu teilwra i anghenion eich busnes. Gall prentisiaethau helpu i drawsnewid eich cwmni drwy gynnig ffordd o ddod o hyd i dalent ffres a newydd â sgiliau'r sector.

Mae prentisiaid yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr profiadol ac yn ennill sgiliau penodol i swydd, yn ogystal â chael hyfforddiant allanol gan goleg, darparwr hyfforddiant neu brifysgol gymeradwy i ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol. Hoffech chi ddarllen am y ffyrdd mae busnesau eraill wedi elwa?

Ewch i: businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau/straeon-llwyddiannau-cyflogwyr

05

LEFELAU PRENTISIAETHAU

Lefel	Gweithio tuag at
Lefel 2 – Prentisiaeth Sylfaen	NVQ Lefel 2 a chyfwerth â 5 TGAU da
Lefel 3 – Prentisiaeth	NVQ Lefel 3, cyfwerth â phasio 2 Safon Uwch
Lefel 4/5 - Prentisiaeth Uwch	Lefel HNC/ HND/ Gradd Sylfaen
Lefel 6 - Gradd-brentisiaeth	Gradd baglor lawn. Cynigir llwybrau ym meysydd TGCh/ Digidol a Pheirianeg / Gweithgynhyrchu Uwch ar hyn o bryd.

Beth mae hyn yn ei olygu?

- Gan weithio gydag un o'n darparwyr cymeradwy, byddwch yn gyfrifol am ddarparu a chynllunio amserlen hyfforddiant y prentis, yn Gymraeg neu Saesneg, a chaniatáu dull gweithredu wedi'i deilwra sy'n benodol i'r busnes.
- Eich darparwr hyfforddiant fydd yn rheoli prosesau'r cymhwyster, yr asesiad a'r rhaglen.
- Byddwn yn darparu'r holl gymorth, cefnogaeth a chyingor sydd ei angen arnoch unwaith y byddwch wedi gwneud y dewis doeth i gymryd rhan yn y Rhaglen Prentisiaethau.

Beth yw'r costau?

- Mae dwy gost yn perthyn i brentisiaeth - cyflog y prentis a chost hyfforddiant. Bydd yn rhaid i chi dalu'r gost gyntaf. Does dim rhaid i chi dalu'r ail.
- Llywodraeth Cymru sy'n talu'r rhan fwyaf o'r costau hyfforddiant, ac mae'n gweithio gyda darparwyr hyfforddiant allanol i reoli, darparu ac asesu'r holl brentisiaethau.
- Gall darparwyr hyfforddiant fod yn breifat, yn arbenigol neu'n goleg neu brifysgol leol.

Rydym yn darparu llwybrau prentisiaeth wedi'u hariannu'n llawn mewn 23 sector yng Nghymru.

Addysg a Gwasanaethau Gwybodaeth

Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd

Arlwyo a Lletygarwch

Busnes a Rheoli

Bwyd a Diod

Diwylliant, Dylunio a'r Cyfryngau

Gwallt a Harddwch

Gwasanaethau Adeiladu

Gwasanaethau Amddiffynnol

Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ariannol

Gwasanaethau Cyhoeddus

Gwasanaethau Eiddo

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol

Gwasanaethau Gofal Iechyd

Gwasanaethau Gofal Plant

Gweithgynhyrchu a Deunyddiau Uwch

Gwyddorau Bywyd

Manwerthu

Moduron, Cludiant a Logisteg

Peirianeg

Technoleg Ddigidol

Teithio, Twristiaeth a Hamdden

Ynni

Gofynion cymhwyster

Mae busnesau yng Nghymru o bob maint yn gymwys /
Cyflogwyr sy'n talu ardoll a'r rhai nad ydynt yn talu ardoll

Rhaid i brentisiaid fod yn 16 oed a hŷn i wneud cais ac
yn 18 oed i wneud cais am Radd-brentisiaethau

Mae'n rhaid i'r cyflogwr ddarparu contract
cyflogaeth (16+ awr yr wythnos)

Mae'n rhaid i brentisiaid weithio 51% neu
fwy o'u hamser yng Nghymru

Rhaid i brentisiaid ddilyn Fframwaith Prentisiaeth Cymru

Y Camau Nesaf

Llenwch y ffurflen Mynegi Diddordeb ar Borth Sgiliau Busnes
Cymru: businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/prentisiaethau

Fe gewch chi gymorth un i un gan dîm o Ymgynghorwyr Ymgysylltu
â Chyflogwyr sy'n gallu rhoi cyngor ar lwybrau prentisiaeth,
dewisiadau llwybrau a dewis y cymhwyster cywir.

Rhagor o wybodaeth

- Gall BBACh yng Nghymru gael gafael ar gymorth ar sut i recriwtio
prentisiaid 16-19 oed: [businesswales.gov.wales/skillsgateway/
cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau/cyflogi-prentis](https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau/cyflogi-prentis)
- Gwybodaeth am gyflogi prentisiaid anabl:
gov.uk/access-to-work
- Cymorth ar gyfer prentisiaid posibl, prentisiaid cyfredol a
phrentisiaid y dyfodol: llyw.cymru/prentisiaethau-dewis-doeth
- Mae manylion cyswllt y darparwyr hyfforddiant ar gael yn y
Pecyn Cymorth i Gyflogwyr yma: [businesswales.gov.wales/
skillsgateway/sites/skillsgateway/files/documents/
Apprenticeships%20Employer%20Toolkit.pdf](https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/sites/skillsgateway/files/documents/Apprenticeships%20Employer%20Toolkit.pdf)